

DETHOLIAD O

Y GWEUNDIR

MORGAN OWEN

sef y gwaith a ddaeth yn ail agos am Fedal Ddrama Eisteddfod yr Urdd yn Llanelwedd eleni. Am ddrama **STEPEN**, meddai'r beirniaid, Aled Jones Williams a Luned Aron, mai gan y dramodydd hwn y cafwyd "ysgrifennu gorau'r gystadleuaeth. Hyderus yw ei ddefnydd o iaith. Mae yma eirfa gyfoethog ac mae'r gystrawen yn ei thafodiaith yn hyfryd i'r glust. Teimlwn ryw aeddfedrwydd anghyffredin yn yr ysgrifennu hwn [...] Pwy bynnag yw [y dramodydd]", meddent, "y mae llenor wedi dod i'r fei yn yr eisteddfod hon". Pleser o'r mwyaf i'r *Stamp* yw cael cyflwyno rhan o'r ddrama ger bron darllenwyr am y tro cyntaf.

*

Hydreiddir llenyddiaeth Cymru a Rwsia ill dwy gan ryw angst gwasgarog, styfnig, amhenodol - er nad am yr un rhesymau. Mae ein llên ni yn gyforiog o golledion ingol, urddasol; mae eu llên nhw yn ymgodymu â pheithdiroedd anferthol (y steppe) sy'n chwalu synnwyr gofodol rhywun yn ogystal â'i berthynas â ffiniau cyfarwydd. Canlyniad y ddau ddryswch hyn yw ansicrwydd dirfodol. O synfyfyrion fel hyn, ganed **Pafel** a **Mabon**, gyda'r naill yn cynrychioli anallu i amgyffred gofod ystyrion (ond heb unrhyw wedd Rwsiaidd iddo!), a'r llall yn boenus ymwybodol o golled na all ei chofio na'i mynegi.

Maent yn eu cael eu hunain ar weundir mawr di-ffin, di nodwedd, ac ni allant gofio i ble maent yn mynd, pam maent yn mynd yno, am ba mor hir maent wedi bod yn cerdded, na phwy yn union ydyn nhw. Ceisiant ymresymu a phennu rhyw gyfeiriad i'w crwydro - yn llythrennol ac yn ddirfodol. Ni allant gytuno, ac mae'r naill yn amau'r llall o dwyll, neu wallgofrwydd, wrth i'w hatebion i gwestiynau gofalus ei gilydd ymddangos ar brydiau mor wahanol, ond ar brydiau eraill yn anghysurus o debyg. Yn fuan, fe'u cânt eu hunain mewn penbleth lwyr, wrth i'r pethau mwyaf cyffredin ymddangos yn gynyddol bell a dieithr. Amheuant a ydynt yn bod o gwbl.

Siaradant ill dau dros Gymru yn ei rhigol presennol.

ble y't ti? pam y't ti?

ble y't ti'n mynd? o ble dest ti?

Y GWEUNDIR
(Detholiad)

PAFEL (yn gweiddi) Ble y't ti?

(Saib. Distawrwydd)

MABON Pam y't it?

(Saib. Distawrwydd)

PAFEL Ble y't ti'n mynd?

(Saib. Distawrwydd)

MABON O ble dest ti?

(Saib. Distawrwydd)

PAFEL 'Na ffôl ydyn ni, yn gweiddi i'r affwys fel 'na.

MABON O'nd yw e fod gweiddi nôl?

PAFEL Syllu nôl mae fe fod.

MABON Wela' i ddim.

PAFEL Falle 'na pam. Falle taw dim ydyn ni.

MABON Po fwya' rŷn ni'n ymdroi yn y tir neb 'ma, mwya' oll rwy'n timlo fel dim byd.

PAFEL Hei, ma hwnna'n ymadrodd priodol iawn - tir neb.

MABON Diolch, ond rwy'n cretu bod e'n itha' ystrydepol, o'm rhan i.

PAFEL Ond o ddifri: heb fod 'na neb arall 'ma, gallen ni ond ymgydnepod â ni'n hunen - a neb yn ni yn y bôn.

MABON (*â thinc gobeithiol yn ei lais*) Felly ti'n gweud taw ein tir ni yw hwn?

PAFEL Na! Nid dyna o'dd y pwynt! Gweud taw neb yn ni o'n i!

MABON O ... ond yn ni, mewn gwirionedd?

PAFEL (*Oeda ennyd*) Rwy'n cretu ...

MABON Wetwn i ein bod ni'n timlo fel 'na am nad o's 'na unrhwbeth 'ma - dim byd i ni 'i drin a'i drafod.

PAFEL Diddorol. Ymhelaetha.

MABON Ein nod yw gwneud rhwpeth, fel ein bod ni'n timlo taw ni sy weti achosi rhwpeth, ei ddechre a'i ddiwedd.

PAFEL Ie, 'na gwmws pam ni'n dal i fwrw yn ein blaene a gweiddi i'r affwys, nag yw e?

MABON Yn gwmws. Ac ychwanega at hynny y ffaith ein bod ni'n waglaw yn ogystal ...

PAFEL (*yn torri ar ei draws*) A so ni'n cretu mewn dim 'chwaith!

MABON Dim.

PAFEL Ond dychmyca ein bod ni weti'n cadwyno i waelod y môr - sefyllfa nad yw'n gwblwll annhebyg i'n sefyllfa bresennol, a ninne'n gaeth i'r gweundir gwag 'ma - dychmyca ein bod ni rywsut yn gallu sgwennu cerdd, a bod y papur yn cwnnu drwy'r dŵr i'r wyneb. Be fydden ni weti'i gyflawni?

MABON Os o'dd y byd uwch ein penne'n fudan, os o'dd geirïe'n golycu rhwpeth yno, bydde un gerdd o waelod y môr yn chwyldro!

PAFEL Ac os o'dd pob un lan 'na yn 'wdu geirïau beunydd a byth, a phobun â'i gorn siarad 'i hun?

MABON Sbwriel fydde'r gerdd wetyn 'yn.

PAFEL Diddorol. Ond rŷn ni'n dal i wynepu'r un broblem - dim ond ni'n dou sy 'ma.

MABON (*yn codi i'w draed*) Petwar, os yn ni'n cyfri ein cysgodion.

PAFEL (*yn codi hefyd, ac yn bwrw ei freichiau ar led*) Pwy sydd i weud nad yw'r rhein yn gwrando?

MABON Neb! Oni allen ni greu ein gwir ein hunen?

PAFEL Sbo.

MABON O's cyfrifoldeb gennyn ni tuag at y gwir?

PAFEL O's, os o's na wir.

MABON Pe baen ni'n rhitho nad o's na ddim gwir ... Bydde hyn i gyd yn haws o lawer. Gallen ni ddatgan a chretu unrhyw beth!

PAFEL Fel y gwetodd rhyw fardd mowr o ryw wlad fowr bell: 'Mae'n well gennym un anwiredd aruchel na llu o wirioneddau cyffredin'.

MABON Ti'n gweud felly taw anwiredd yw gwatu bod 'na wir?

PAFEL Os y't ti'n ymwybodol dy fod ti'n gwatu rhwpeth, rhaid bod e'n bod.

MABON Nôl â ni 'te i'r man cychwyn unweth 'to: sai'n cretu dim!

PAFEL Dim!
MABON Ond ma'n cysgodion dal 'ma.
PAFEL Rhwpeth yw dim, fodd bynnag.
MABON Be' ?
PAFEL Sai'n cretu mewn dim byd ond fy nim byd i.
MABON 'Na ti linell dda.

(Edrychant ar ei gilydd â golwg flinedig; cerddant mewn cylch o amgylch y llwyfan)

PAFEL Diolch, ond ma'r gair na'n cwntu cyfog arna i: 'dim, dim, dim!'
MABON Tybed ai rhyw fath o ryddid yw dim?
PAFEL Pa ryddid yw trampan ar weundir anferthol di-ffin, di-bopeth!
MABON Rhyddid mowr.
PAFEL Nid heb ystyr dyw e ddim. Caniateir popeth, ond fydd ddim o bwys.
MABON *(yn ochneidio)* Os na fydd ddim o bwys, beth am inni bobloci'r paith â breuddwydion?

(Symuda cysgod y tu ôl iddynt yn frysiog, o un pen y llwyfan i'r llall)

PAFEL Do's dim breuddwydion go iawn heb gysgu, a sai isie cysgu, rhag ofon i rwpeth ddigwydd.
MABON Paid â bod yn dwp! Pryd bynnag daw'r nos, cawn gyfle i fwrw iddi o ddifri!
PAFEL Ond ... oni fydd y nos yn un cysgod mowr dros bopeth?
MABON Nage - y gwrthwyneb: ti methu gweld cysgod yn y nos! Ma'n 'u llyncu nw'n llwyr.
PAFEL A beth am y lle 'ma? Bydd 'wnna dal 'ma ...?
MABON Fyddi di ddim yn gallu 'i weld e. Edrych i fyny bydden ni ta beth y pryd 'ny, nid i lawr.
PAFEL Ar y sêr?
MABON Yn gwmws.
PAFEL O'n i weti 'u anghofio nw ...
MABON Eisht! Ma'r lleisie nôl.

(Sŵn glaswellt hir a garw'n tonni yn yr awel)

PAFEL Ma'r awyr ei hun yn siarad; ma'r rhod yn troi.
MABON Be' glywi di?
PAFEL Pelltero'dd, eangdere. Distawrwydd. Ddaw'r nos, go iawn?
MABON Fe ddaw gyfaill, fe ddaw.

(Cerddant mewn cylch. Clywir sŵn adar yn canu'n bell i ffwrdd, fel petai'r nodau'n cael eu cludo gan y gwynt)

PAFEL Am y tro cynta', rwy'n cretu 'mod i'n timlo rhwpeth.
MABON Be' ?
PAFEL Wn i ddim yn gwmws. Rhyw dimlad od - fy mod i 'ma, reit fan 'yn nawr. Fy mod i'n bod.
MABON Ai, go ryfedd.
PAFEL Ac rwy'n clwed rhwpeth ... sibrawd ... 'cogau canant' ...
MABON Shwt ma'r geirie'n timlo, shwt ma'n nw'n tasto?
PAFEL Fel colled, ond hen golled bell. Rwy'n dal i dimlo rhyw gyffro bach.
MABON A minne erbyn 'yn. Ma'r gweundir dal yn timlo'n unig a diffaith, ond rwy'n dechre gweld bod e'n ... wahanol.
PAFEL Do's dim yn aros 'run fath. Ma popeth yn newid o hyd.

(Mae'r golau'n troi'n yr un lliw â blodau grug)

MABON 'Na chi bert. Ma'n nosi ...
PAFEL Anghofies i fod pethe mor sylfaenol â dydd a nos i'w ca'l.
MABON Sai'n dy feio di, r'odd y dydd yn hir, a do's gan ole'r dydd ddim trugaredd. So fe'n cwato dim - ma'n dangos popeth iti yn ei holl fanylder. Dan houl canol dydd, ma'r orie'n ymddangos yn dragwyddol.
PAFEL Ond ... be' am y cysgodion?
MABON Paid â phoeni amdanyn nw. Jyst darne bach o'r nos yn nw. Gwell inni dderbyn y dewn nw, a do's dim gallen ni 'i neud am hynny.
PAFEL *(â golwg lonydd, benderfynol)* Newn ni lenwi'r bylche yn y gole gyda'n breuddwydion.
MABON Os yw'r byd yn troi, man a man inni droi gydag e.
PAFEL *(yn pwyntio i'r wybren)* 'Drych, ma'r sêr cynta'n ymddangos.
MABON *(yn lled-sibrawd, bron yn llafarganu)* Y nos, y nos, y nos, y nos, y nos ...

(Saib)

PAFEL Be' ddaw ohoni? Ai gwawr newydd, neu'r diwedd? Beth os taw dyma ole marwor yn unig, a fory - wel, fydde 'na ddim fory wedyn. Bydde'r aelwyd yn oer.
MABON Shhh. Paid. Do's dim modd gwpod hwnna, felly gwastraff amser fydde dallgeibo fel 'na.
PAFEL (yn gwenu) Ai, gwir iawn.
MABON Be' bynnag sy'n digwydd, rŷn ni weti bod; rŷn ni weti bod 'ma.
PAFEL (â golwg braidd yn syn) Ni ... ni ... O'n i'n canolbwyntio cyment ar y gole glasgoch a'r newid o'r dydd i nos, do'n i ddim yn ... ymwybotol ohonof i fy hun.

(Y ddau'n eistedd yng nghanol y llwyfan)

MABON Rhan o'r cyfan ŷn ni.
PAFEL Do's na ddim 'fi'.
MABON Naco's.
PAFEL Na 'ti'.
MABON Naco's.
PAFEL Na 'ni'.
MABON Naco's.
MABON Do's dim.
MABON Dim yw popeth, a phob un peth yw dim.

(Gwenant. Caeant eu llygaid)

PAFEL 'Na ti 'te. Rhwpeth gwahanol o'r diwedd.
MABON O'n ni'n sôn gynne am wneud rhwpeth.
PAFEL O'n.
MABON O'n ni'n edrych yn y lle anghywir weti'r cyfan. Bod yw gwneud.
PAFEL At be' anelwn ni bellach felly?
MABON Cymerwn bob dydd fel y daw.

(Dechreua cysgodion gau am y llwyfan)

PAFEL (yn gysglyd) Cofio'r holl leisiau?
MABON (yn gysglyd) Odw.
PAFEL Ma'n nw dal 'na, ganrifo'dd ohonyn nw.
MABON Rwy'n gwpod nad o's na flodau grug 'ma, ond rwy'n 'u gwynto nw.
PAFEL Rwy'n timlo clais yn lledu uwch ein penne ar draws yr awyr. Rwy'n cofio wynepe hen gariadon.
MABON Rwy'n cofio blas shrwmps..
PAFEL A sŵn core'n canu'n unllais.
MABON A shwt ma clyche'r gog yn edrych weti cawod o law.
PAFEL A thonne'n dod dros y morglawdd.
MABON A gwead brethyn catre'
PAFEL A'r olygfa o ben Bryn y Grog.
MABON A chymoedd bychen yn ymsarffio tua'r môr.
PAFEL A pherci mewn dinasoedd pell.

(Mae eu lleisiau'n dechrau tawelu wrth i'r golau ddechrau pylu)

MABON Ac shwt ma'r pridd yn gwynto cyn iddi nosi yn yr haf.
PAFEL A hen gywydde canoloesol.
MABON A sotle merched ar heolydd cobl.

(Clywir sŵn glaswellt yn tonni mewn awel ysgafn, ac yna saib. Pyla'r golau nes bod y llwyfan yn dywyll)

DIWEDD